



Technoleg Adnabod Wynebau Byw Heddlu De Cymru: Mandad Cyfreithiol

Crynodeb: Mae'n amlinellu'r sail gyfreithlon dros ddefnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau byw

Enw'r Heddlu	Heddlu De Cymru
Pwnc	Technoleg Adnabod Wynebau Byw (LFR)
Crynodeb	Mae'n amlinellu'r sail gyfreithlon dros ddefnydd agored Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau byw i ddod o hyd i unigolion ar Restr Wyllo
Awdur	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd

Enw'r Prosiect	Technoleg Adnabod Wynebau
Yr Uwch-Swyddog Cyfrifol –	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis
Maes Busnes/Adran	Yr Is-adran Gwasanaethau Digidol
Dyddiad gweithredu arfaethedig	Ar unwaith
Rhif Cyfeirnod (<i>i'w bennu gan y system Rheoli Gwybodaeth</i>)	

Rheoli newid:

Fersiwn	Dyddiad	Awdurdod	Tystiolaeth o gymeradwyo	Cofnod o newid
0.1	30.03.21	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Drafft Cychwynnol

0.2	08.06.21	Adolygiad Uwch-dîm Rheoli'r Is-adran Gwasanaethau Digidol	Y Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher	Dim Diwygiadau
0.3	01.11.21	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Mân Ddiwygiadau
1.0	11.11.21	Yr Uwch-Swyddog Cyfrifol	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis	Dim Diwygiadau

1	<i>Cyflwyniad</i>	3
2	<i>Y Gyfraith Gyffredin</i>	4
3	<i>Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984</i>	5
4	<i>Deddf Hawliau Dynol 1998</i>	6
5	<i>Deddf Cydraddoldeb 2010</i>	17
6	<i>Deddf Diogelu Data 2018</i>	19
7	<i>Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data</i>	244
8	<i>Deddf Diogelu Rhyddidau 2012</i>	25
9	<i>Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000</i>	26
10	<i>Trosolwg o'r Fframwaith Cyfreithiol a'r Trefniadau Llywodraethu</i>	27

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir ym Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw yr ystyr a roddir iddynt yn Nogfen Bolisi Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw oni chânt eu diffinio fel arall ym Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw.

1 Cyflwyniad

- 1.1 Nid yw'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw at ddibenion gorfodi'r gyfraith yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth sylfaenol benodol. Rheoleiddir y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw gan sawl ffynhonnell o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn ogystal â pholisiau cenedlaethol a lleol. Mae'r 'tapestri' hwn o ddeddfwriaeth yn cytuno i ddarparu strwythur cyfreithiol amlhaenog i ddefnyddio a rheoleiddio'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw.

Haen un: Deddfwriaeth	Pŵer Cyfreithiol i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw	<p>a) Y Gyfraith Gyffredin</p> <p>b) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 Cod D (diwygiedig)</p>
	Yn rheoleiddio'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw	<p>Gweithredol</p> <p>b) Deddf Hawliau Dynol 1998</p> <p>c) Deddf Cydraddoldeb 2010</p> <p>Rheoli Data</p> <p>d) Deddf Diogelu Data 2018/y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data</p> <p>e) Deddf Diogelu Rhyddidau 2012</p>
	Cais am Wybodaeth mewn perthynas â thechnoleg adnabod wynebau byw	<p>f) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000</p> <p>g) Deddf Diogelu Data 2018 (Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun)</p>
Haen Dau: Cod a Chanllawiau	Yn rheoleiddio'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw	a) Cod Ymarfer yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Camerau Gwylidwriaeth

		<p>b) Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth (Facing the Camara)</p> <p>c) Cod Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer Camerâu Gwylidwriaeth a chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth</p>
<p>Haen Tri: Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw</p>	<p>Yn rheoleiddio'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw</p>	<p>a) Dogfen Bolisi Heddlu De Cymru</p> <p>b) Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru</p> <p>c) Dogfennau Hyfforddi Heddlu De Cymru</p> <p>d) Dogfen Bolisi Briodol Heddlu De Cymru ar gyfer Diogelu Data</p> <p>e) Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data</p> <p>f) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</p> <p>g) Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned</p> <p>h) Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru</p>

2 Y Gyfraith Gyffredin

- 2.1 Mae gan yr heddlu nifer o gyfrifoldebau a phwerau sefydledig sy'n deillio o'r gyfraith gyffredin sydd wedi cael eu cydnabod gan y llysoedd. Mae'n rhaid i Heddlu De Cymru gydymffurfio â'r gyfraith gyffredin a mesurau diogelwch statudol wrth gyflawni ei ddyletswyddau plismona gweithredol ac mae'n dibynnu ar y gyfraith gyffredin i gyflawni nifer o'i ddyletswyddau.
- 2.2 Ymhlith y pwerau allweddol o dan y gyfraith gyffredin y gall Heddlu De Cymru ddibynnu arnynt wrth ddefnyddio technoleg ADNABOD WYNEBAU BYW mae pwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin i wneud y canlynol:

- (a) diogelu bywydau ac eiddo;
- (b) cadw trefn ac atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd;
- (c) atal a chanfod troseddau;
- (d) dwyn troseddwyr gerbron y llys;
- (e) cynnal diogelwch gwladol.

Enghraifft: Mae Heddlu De Cymru wedi nodi'r defnydd y gellir ei wneud o dechnoleg adnabod wynebau byw fel tacteg blismona er mwyn dod o hyd i unigolion y mae'n chwilio amdanynt mewn cysylltiad â gwarant heb ei chyflawni. Yn y cyd-destun hwn, byddai defnyddio technoleg adnabod wynebau byw er mwyn helpu swyddogion i ddod o hyd i unigolion sy'n osgoi cael eu harestio yn brydlon yn galluogi Heddlu De Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau i ddiogelu bywyd ac eiddo. Byddai hefyd yn cyd-fynd â dyletswydd Heddlu De Cymru i ddwyn troseddwyr gerbron y llys drwy hwyluso ymchwiliad prydlon ac effeithiol.

2.3 Mae'r defnydd a wneir o bŵer Heddlu De Cymru o dan y gyfraith gyffredin fel sail gyfreithlon i gefnogi'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw wedi cael ei ystyried a'i gydnabod gan y llysoedd yn:

- a) *R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2019] EWHC 2341 (Gwein)* (penderfyniad "High Court Bridges"); ac
- b) *R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2020] EWCA Civ 1058* (penderfyniad "Court of Appeal Bridges").

Crynhôdd y Llys Apêl y sail gyfreithlon mewn perthynas â llunio Rhestrau Gwylio ymhellach fel un sydd wedi'i hawdurdodi "under the Police and Criminal Evidence Act 1984 and within the powers of police at common law." Mae'r cyfeiriad at Ddeddf 1984 yn cyfeirio at ddelweddau a geir yn unol ag Adran 64A ('*Photographing of suspects etc.*') o'r Ddeddf ac yn arbennig adran 64A(4)(a) sy'n caniatáu i lun gael ei dynnu o dan yr adran i'w ddefnyddio "for any purpose related to the prevention or detection of crime, the investigation of an offence or the conduct of a prosecution or to the enforcement of a sentence". Mae'r Llys Apêl yn nodi "[that] this was not an issue which we have to address in this appeal, since it is now common ground that SWP do have the power to deploy [LFR]."

Swyddogion Awdurdodi: Wrth ystyried defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, rhaid bod yn glir ynglŷn â'r pŵer plismona o dan y gyfraith gyffredin y dibynnir arno i awdurdodi defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn gyfreithlon a'i gofnodi fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad.

3 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

- 3.1 Mae adran 64A o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn caniatáu i lun o unigolyn sy'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu gael ei dynnu.
- 3.2 Mae'n darparu ar gyfer defnyddio'r lluniau i atal a chanfod troseddau, ymchwilio i droseddau neu erlyn unigolion.

4 Deddf Hawliau Dynol 1998

- 4.1 Bydd defnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae technoleg adnabod wynebaw byw yn dwyn i rym Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac, yn benodol, gallai effeithio ar hawliau unigolyn o dan Erthygl 8, sef yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol. Mae'r erthygl hon yn darparu:

' There shall be no interference by a public authority with the exercise of the right except such as in accordance with the law and is necessary in a democratic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others.'

- 4.2 Fel hawl amodol, dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y caniateir ymyrryd â hawliau unigolyn o dan Erthygl 8:

a) mae **sail gyfreithlon** dros ymyrryd â'r hawl amodol y gall y cyhoedd ei deall;

b) Diben defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yw cyflawni'r **nod dilys**;

c) mae'n **angenrheidiol** at ddibenion y nod hwnnw mewn cymdeithas ddemocrataidd;

d) mae defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn gymesur â'r nod dilys y ceisir ei gyflawni.

- 4.3 Mae'n ffaith sefydledig bod Erthygl 8 yn eang ei chwmpas. Mae achos *S v. y Deyrnas Unedig*¹ yn cadarnhau y gall hyn ymwneud â hawl unigolyn i weld ei ddata biometrig ac unrhyw ddata sy'n cael eu storio sy'n ymwneud â'i ddata biometrig. Gan gydnabod bod y defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn cynnwys prosesu data biometrig, aeth yr achos hwnnw ymlaen i gydnabod, wrth ddiogelu'r data personol a mathau eraill o weithgarwch prosesu biometrig, y gall "the legitimate interest in the prevention of crime" fod yn drech na buddiannau testun y data a'r gymuned.²

- 4.4 Ystyriodd achosion 'High Court Bridges' a 'Court of Appeal Bridges' Erthygl 8, yn benodol yng nghyd-destun technoleg adnabod wynebaw byw a chadarnhaodd fod Erthygl 8 yn cael ei dwyn i rym i'r graddau bod rhywun yn mynd drwy'r Parth Adnabod ac i'r graddau bod rhywun yn cael ei roi ar Restr Wyllo a ddefnyddir mewn ymgyrch adnabod wynebaw byw. Yn dibynnu ar natur y defnydd a wneir o'r dechnoleg, mae'r Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth wedi nodi y gellid effeithio ar hawliau dynol eraill hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i ryddid i ymgynnull, rhyddid meddwl, cred a chrefydd, rhyddid mynegiant, rhyddid i ymgysylltu a'r hawl i gael eich diogelu rhag gwahaniaethu mewn perthynas â'r hawliau a'r rhyddidau hynny. Dylai Swyddogion Awdurdodi gysylltu ag Adran Gwaith Achos Cyfreithiol Arbennig Heddlu De Cymru os byddant o'r farn y gallai fod hawliau dynol ehangach i'w hystyried mewn perthynas â defnydd arfaethedig o'r dechnoleg.

¹ (2009) 48 EHRR 50, yn [66 a 67]

² Yn [104]

4.5 Mae sail gyfreithlon dros ymyrryd â'r hawl amodol y gall y cyhoedd ei deall

Defnyddir technoleg adnabod wynebau byw i alluogi Heddlu De Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau gweithredol sefydledig yn unol â'r gyfraith gyffredin. Mae'r llysoedd wedi cydnabod nad oes angen i'r rheolau fod yn statudol "... providing they operate within a framework of law and that there are effective means of enforcing them".³

Yn achos *R (Catt) v Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu [2015] A.C. 1065*, cydnabu'r Arglwydd Sumption y gallai gwybodaeth bersonol ceisyddion gael ei chofnodi a'i chadw gan yr heddlu gan eu bod yn meddiannu manau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Cydnabu'r llys fod pwerau'r heddlu o dan y gyfraith gyffredin i gasglu a storio gwybodaeth yn destun "intensive regime of statutory and administrative regulation" o dan y Ddeddf Diogelu Data a gwahanol ddogfennau canllaw ar reoli gwybodaeth yr heddlu.

Mae'r llysoedd hefyd wedi cydnabod hawl yr heddlu i ddefnyddio ffotograff o unigolyn. Derbyniodd y llysoedd y dibenion o atal a chanfod troseddau, ymchwilio i droseddau honedig a dal unigolion dan amheuaeth neu unigolion sy'n rhydd yn anghyfreithlon. Roedd hyn yn wir p'un a yw'r ffotograff yn ffotograff o unrhyw unigolyn y mae'n ceisio ei arestio ai peidio neu'n ffotograff o gynorthwy-ydd unigolyn dan amheuaeth neu o unrhyw un arall. Cadarnhaodd y llys mai'r "key is that they must have these and only these purposes in mind and must ... make no more than reasonable use of the picture in seeking to accomplish them".⁴

4.6 Yn achos defnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau byw, mae'r Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn amlinellu'r sail gyfreithlon dros ymyrryd â hawliau unigolyn o dan Erthygl 8. Cadarnhaodd achos 'High Court Bridges' fod pwerau'r heddlu o dan y gyfraith gyffredin yn "amply sufficient" mewn perthynas â'r math hwn o ddefnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw a chadarnhaodd nad oes angen pwerau statudol penodol newydd ar yr heddlu at y diben hwn. Ystyriwyd hyn ymhellach yn achos 'Court of Appeal Bridges' a gydnabu hefyd fod y fframwaith cyfreithiol yn ddigonol, gan nodi⁵:

"the legal framework which regulates the deployment of [SWP's use of LFR] does contain safeguards which enable the proportionality of the interference with Article 8 rights to be adequately examined."

4.7 Nododd penderfyniad 'Court of Appeal Bridges' hefyd, er mwyn bod 'in accordance with the law' fod yn rhaid i'r sail gyfreithlon fod yn:

"'accessible' to the person concerned, meaning that it must be published and comprehensible, and it must be possible to discover what its provisions are. The measure must be 'foreseeable' meaning that it must be possible for a person to foresee its consequences for them and it should not 'confer a discretion so broad that its scope is in practice dependant on the will of those who apply it, rather than on the law itself'."

4.8 Wrth ystyried hygyrchedd a rhagweladwyedd, ystyriodd y Llys Apêl faint o ddisgresiwn a oedd gan swyddogion Heddlu De Cymru yn yr achos ger ei fron i benderfynu *ble* y byddent yn defnyddio

³ *R (Catt) v Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu [2015] A.C. 1065* yn [11].

⁴ Yn ôl Laws J yn *Hellewell v Prif Gwnstabl Swydd Derby [1995] 1 WLR 804 at 810F*

⁵ Yn [69].

technoleg adnabod wynebau a *phwy* y gellid ei roi ar Restr Wyllo. Mae'r llys yn cyfeirio at hyn fel y "Cwestiwn Pwy" a'r "Cwestiwn Ble".

- a) Y 'Cwestiwn Pwy': Wrth ystyried sut y dylid ateb y 'Cwestiwn Pwy', nododd y Llys Apêl yn glir nad yw'r gyfraith yn ceisio cadarnhad penodol ynglŷn â phwy sydd ar Restr Wyllo (mae'n cydnabod egwyddor NCND6). Cydnabu'r Llys Apêl y gellid ychwanegu unigolion at Restr Wyllo ar sail y ffaith "[that they are] wanted on suspicion of an offence, wanted on warrant and vulnerable persons".
- b) Mae'r Llys Apêl hefyd yn esbonio pam nad oedd y categori o "other persons where intelligence is required" yn hygyrch nac yn rhagweladwy i fodloni'r prawf 'in accordance with the law'. Nododd nad oedd y categori yn hawdd i'w ddeall nac yn wrthrychol – roedd yn gadael "too broad a discretion vested in the individual police officer to decide who should go onto the watchlist" – i bob pwrpas roedd yn caniatáu i swyddogion yr heddlu benderfynu beth oedd ystyr 'other persons where intelligence is required' fesul achos yn hytrach na phendefynu a oedd unigolyn yn bodloni'r meini prawf a nodir ym mholisi'r heddlu.
- c) Gan ddilyn dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Llys Apêl⁷, mae Heddlu De Cymru yn ymdrin â'r 'Cwestiwn Pwy' yn Nogfennau cyhoeddedig Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw, yn enwedig yn Adran 6 o Weithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru. Mae Heddlu De Cymru yn pennu'r meini prawf sy'n gymwys i reoli'r delweddau a allai gael eu cynnwys ar Restr Wyllo ac o dan ba amgylchiadau. Er mwyn sicrhau bod y meini prawf ar gyfer cynnwys delweddau ar Restr Wyllo yn hygyrch ac yn rhagweladwy, mae Heddlu De Cymru yn esbonio terminoleg megis 'presenting a risk of harm' ac 'otherwise of interest to the police' er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd i'w deall ac yn wrthrychol i swyddogion a'r cyhoedd. Mae'n nodi'r safon sy'n ofynnol i gynnwys delwedd ar Restr Wyllo, gan gysylltu'r rheidrydd a'r meini prawf ar gyfer cynnwys delwedd ar Restr Wyllo â'r angen plismona a chymesuredd cymryd unrhyw gamau.
- d) Y 'Cwestiwn Ble': Nododd y Llys Apêl nad oedd tîm Heddlu De Cymru yn gallu "draw to our attention anything which specifies where AFR Locate may be deployed". Mae Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw yn ateb y cwestiwn hwn, yn enwedig Gweithrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn Adran 5. Wrth ateb y cwestiwn hwn, mewn llawer o achosion, bydd yr angen i ddod o hyd i unigolyn yn pennu'r lleoliad gorau i osod technoleg adnabod wynebau byw er mwyn hwyluso'r gwaith o ddod o hyd i unigolyn yn llwyddiannus. Fodd bynnag, bydd ffactorau eraill yn berthnasol hefyd ac mae'r rhain yn cynnwys natur y safle ei hun o safbwynt preifatrwydd, yr unigolion hynny sy'n mynd heibio i'r safle a'r angen plismona i fod ar y safle (gan gynnwys er mwyn diogelu'r cyhoedd).

Gyda mantais penderfyniadau *Bridge*, mae'r gyfraith bellach wedi'i chymhwyso at y defnydd byw o dechnoleg adnabod wynebau. Mae'r penderfyniadau barnwrol hyn, o'u hystyried ar y cyd â dogfennaeth gyhoeddedig Heddlu De Cymru i gefnogi'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw yn ei gwneud yn bosibl i egwyddorion y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer

⁶ Yn [95].

⁷ Yn [118].

Technoleg Adnabod Wynebau Byw gael ei gymhwyso'n rhagweladwy at y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw mewn ffordd hygyrch a dealladwy. Mae'n galluogi aelodau o'r cyhoedd sy'n mynd heibio i system adnabod wynebau byw a'r rhai a allai gael eu rhoi ar Restr Wyllo ddeall y safonau y mae Heddlu De Cymru yn gweithredu yn unol â nhw, gan gynnwys nodi'r broses awdurdodi a'r gofynion ar gyfer defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, manylion am ble y gellir defnyddio'r dechnoleg a'r ystyriaethau a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol o ran pwy y gellir ei roi ar Restr Wyllo Rhaglen Adnabod Wynebau Byw.

4.9 **Diben defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yw cyflawni nod dilys**

Mae Erthygl 8 yn cydnabod camau gweithredu i gynnal diogelwch gwladol, diogelu'r cyhoedd ac atal anhrefn a throseddau fel nodau dilys. Bydd y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw yng nghyd-destun helpu Heddlu De Cymru i ddod o hyd i droseddwy'r yn helpu Heddlu De Cymru i gyflawni ei ddibenion gorfodi'r gyfraith.

Swyddogion Awdurdodi: Ar yr adeg y penderfynir defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad fod yn glir ynglŷn â'i ddiben a sut y bydd defnyddio'r dechnoleg yn helpu Heddlu De Cymru i gyflawni nod dilys. Wrth benderfynu a yw defnyddio'r dechnoleg yn ffordd addas o gyflawni nod dilys, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried a yw manteision defnyddio'r dechnoleg yn cyfiawnhau ei defnyddio i gyflawni'r nod dilys o'u cymharu ag unrhyw effaith ar Hawliau unigolyn o dan Erthygl 8.

4.10 **Mae defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn *angenrheidiol* at ddibenion y nod dilys hwnnw mewn cymdeithas ddemocrataidd**

Defnyddir technoleg adnabod wynebau byw mewn ymateb i angen cymdeithasol dybryd drwy helpu Heddlu De Cymru i fynd i'r afael â throseddau mewn ardaloedd lle mae gan y dechnoleg y potensial mwyaf i helpu. Mae'n adnodd sy'n helpu Heddlu De Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau gweithredol, yn bennaf er mwyn helpu i atal a chanfod troseddau a diogelu'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed.

Swyddogion Awdurdodi: Wrth ystyried defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, dylai'r penderfyniad i'w defnyddio bob amser gael ei ategu gan achos cudd-wybodaeth er mwyn tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r drosedd berthnasol neu'r broblem berthnasol sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Ar ôl nodi angen, bydd hyn yn galluogi'r Swyddog Awdurdodi i ystyried defnyddio'r dechnoleg. Rhaid i Swyddogion Awdurdodi benderfynu bod defnyddio'r dechnoleg yn angenrheidiol ac nid dim ond yn ddymunol er mwyn i Heddlu De Cymru allu gyflawni ei nod dilys. Wrth benderfynu bod defnyddio'r dechnoleg yn angenrheidiol, rhaid ystyried y broblem y bwriedir i'r defnydd o'r dechnoleg fynd i'r afael â hi a sut y byddai'r dechnoleg yn cael ei defnyddio er mwyn mynd i'r afael â'r broblem honno.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau lle y gellir defnyddio technoleg adnabod wynebau byw fel adnodd angenrheidiol er mwyn helpu Heddlu De Cymru i atal troseddau a chanfod troseddau. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain a bydd senarios eraill lle y gellir cyfiawnhau defnyddio'r dechnoleg.

Cam-drin plant yn rhywiol: Bydd defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw yn helpu Heddlu De Cymru i fynd i'r afael ag achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Gellid defnyddio'r dechnoleg yn seiliedig ar gudd-wybodaeth i ddod o hyd i blant sy'n agored i niwed sydd ar goll ac y credir eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin yn rhywiol. Yn yr un modd, gellid defnyddio'r dechnoleg mewn digwyddiadau sy'n denu torfeydd mawr a fynychir gan ysglyfaethwyr rhywiol mewn ymgais i nodi ac atal ymosodiadau tebyg. Mae ymchwiliadau sy'n ymwneud ag unigolion coll yn defnyddio cryn dipyn o adnoddau'r heddlu pan fo angen dod o hyd i'r unigolion hynny cyn gynted â phosibl. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig iawn bod yr heddlu yn defnyddio pob mesur rhesymol er mwyn sicrhau bod ganddo'r siawns orau o lwyddo i adnabod unigolyn pan fydd y cyfleoedd adnabod, sy'n aml yn brin, yn codi. Ar adegau, efallai y bydd yr heddlu hefyd yn gofyn i'r cyhoedd helpu i ddod o hyd i bobl sydd ar goll drwy ddefnyddio apeliadau cyhoeddus, drwy ddsbarthu ffotograff o blentyn sy'n agored i niwed yn y cyfryngau. Gallai hyn ymyrryd llawer mwy â hawliau'r unigolyn i breifatrwydd o ystyried mai nod yr apêl gyhoeddus yw codi mwy o ymwybyddiaeth a bod gwybodaeth yn mynd y tu hwnt i reolaeth yr heddlu pan gaiff ei chyhoeddi. Lle y gallai fod yn ymarferol defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw fel adnodd adnabod yn lle hynny, gallai'r ymyrraeth â hawliau'r unigolyn i breifatrwydd fod yn llawer llai, ac eto mae'n cynnig ffordd i Heddlu De Cymru gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y gyfraith gyffredin i ddiogelu bywyd.

Dwyn eiddo personol: Bydd defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw yn helpu Heddlu De Cymru i fynd i'r afael â throseddwr sy'n targedu unigolion a allai fod yn ifanc ac yn agored i niwed mewn digwyddiadau cerddoriaeth. Er enghraifft, gellid defnyddio'r dechnoleg mewn lleoliadau cerddoriaeth, gall fod yn adnodd i helpu swyddogion yr heddlu i nodi'r unigolion hynny sy'n gysylltiedig â dwyn eiddo personol ar raddfa fawr. Mae modd llunio Rhestr Wyllo ar gyfer rhaglen adnabod wynebâu byw, y gellir ei chwmpasu i ganolbwyntio ar droseddwr teithiol sy'n dilyn bandiau ledled Ewrop yn unswydd i gyflawni troseddau. Byddai defnyddio'r dechnoleg fel hyn yn helpu Heddlu De Cymru i gyflawni ei nod o atal a chanfod troseddau ac anhrefn a diogelu'r cyhoedd drwy darfu ar y rhai sydd am ddwyn eiddo drwy ei wneud yn anos iddynt fynd i mewn i'r lleoliad.

At hynny, mewn hinsawdd lle mae angen i heddluoedd weithredu'n effeithlon, mae Heddlu De Cymru hefyd wedi nodi y gall technoleg fel technoleg adnabod wynebâu byw helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i unigolion sydd â gwarantau heb eu cyflawni neu sydd wedi torri amodau eu mechnïaeth mewn rhyw ffordd arall yn gyflym ac yn gosteffeithlon. Mae'n iawn ac yn briodol dod â'r unigolion hynny sy'n rhydd yn anghyfreithlon gerbron y llys gan nodi'r angen i ddiogelu'r cyhoedd o dan amgylchiadau o'r fath. Mae achos 'High Court Bridges' yn cadarnhau bod "considerable additional benefit to the public interest to including those wanted on a warrant" pan ddefnyddir technoleg adnabod wynebâu byw, hyd yn oed pan nad oes unrhyw gudd-wybodaeth benodol i'w lleoli yn yr ardal lle y caiff y dechnoleg ei Defnyddio. Ni fyddai'r ymyrraeth â'r rhai sy'n mynd heibio i'r system yn fwy, ond (i) byddai'r potensial i ddiogelu'r cyhoedd rhag unigolion y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal, (ii) canlyniadau defnyddio'r dechnoleg pan fyddai gwarantau heb eu cyflawni yn cael eu cynnwys a (iii) yr arestiadau a fyddai'n deillio o hynny yn cyfiawnhau cynnwys unigolion â gwarantau heb eu cyflawni gan y llysoedd fel cam gweithredu *angenrheidiol* i ddod â throseddwr gerbron y llys.

4.11 Mae defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn gymesur â'r nod dilys y ceisir ei gyflawni

Wrth ystyried Defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, ni ddylai manteision defnyddio'r dechnoleg ar gyfer ymchwiliad neu ymgyrch fod yn anghymesur nac yn fympwyol. Yn hyn o beth, mae'r Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth yn cydnabod:

“used appropriately, current and future technology can and will provide a proportionate and effective solution where surveillance is in pursuit of a legitimate aim and meets a pressing need”.

Yn hyn o beth, bydd y ffactorau canlynol (ymhlith eraill, yn dibynnu ar y Defnydd a wneir o'r dechnoleg) yn llywio penderfyniadau Swyddogion Awdurdodi:

- a) *Dylai'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw fod yn ddefnydd rhesymol o bwerau Heddlu De Cymru - ni fydd yn gymesur os bydd y defnydd arfaethedig o'r dechnoleg yn ormodol o dan amgylchiadau cyffredinol yr ymchwiliad neu'r ymgyrch.*

Bydd angen i Swyddogion Awdurdodi ystyried difrifoldeb yr ymchwiliad a manteision posibl defnyddio technoleg adnabod wynebau byw a chydbwyso hyn ag unrhyw effaith ehangach y gallai Defnyddio'r dechnoleg ei chael ar y rhai ar Restr Wylid a'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniad ynghylch a yw'n briodol defnyddio'r dechnoleg. Rhaid i Swyddogion Awdurdodi ystyried cyfansoddiad y Rhestr Wylid a gaiff ei llunio ar gyfer y system adnabod wynebau byw i nodi cyfatebiadau yn ei herbyn, er mwyn sicrhau na fydd yn cynnwys gormod o ddelweddau. Mae angen i'r Rhestr Wylid fodloni'r prawf rheidrydd a chymesuredd ac, felly, bydd yn seiliedig ar yr achos cudd-wybodaeth ac wedi'i theilwra bob tro y Defnyddir y dechnoleg er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni nodau'r Defnydd hwnnw.

Un o nodau defnyddio system adnabod wynebau byw yw dod o hyd i unigolion sydd o ddiddordeb i'r Heddlu a defnyddio technoleg adnabod wynebau byw er mwyn eu dal, gan leihau nifer y troseddau sy'n cael eu cyflawni yn yr ardal berthnasol. Gan gadw hyn mewn cof, dylai'r Rhestr Wylid a gaiff ei llunio bob tro y defnyddir y dechnoleg fod yn seiliedig ar yr unigolion hynny sydd o ddiddordeb i Heddlu De Cymru a/neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn y DU ar y pryd er mwyn lliniaru'r risg y bydd y system adnabod wynebau byw yn nodi cyfatebiadau ag unigolion nad ydynt o ddiddordeb mwyach i Heddlu De Cymru nac i asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn y DU.

- b) *Dylid ystyried graddau unrhyw ymyrraeth arfaethedig â phreifatrwydd yn erbyn yr hyn y ceisir ei gyflawni ac a oes dulliau ymarferol eraill o gyflawni'r nod sy'n cynnwys llai o ymyrraeth.*

Dylid ystyried defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn erbyn dulliau eraill o ddod o hyd i unigolion sydd o ddiddordeb i Heddlu De Cymru a/neu Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith yn y DU. Dylid ystyried pa mor effeithiol ac ymwithiol yw dulliau ymarferol eraill a allai gyflawni'r un canlyniad, gyda'r dull ymarferol lleiaf ymwithiol yn cael ei fabwysiadu er mwyn bwrw ymlaen ag ymchwiliad.

Enghraifft: Gellir ystyried dosbarthu llun o unigolyn y mae'r heddlu yn chwilio amdano ar y cyfryngau cymdeithasol yn lle defnyddio technoleg adnabod wynebau byw.

Gellir targedu'r defnydd o'r dechnoleg at ardal benodol ac ni fydd yn arwain at ddatgelu enw unigolyn y mae Heddlu De Cymru yn chwilio amdano i'r cyhoedd. Gellir ei defnyddio

hefyd am gyfnod penodol o amser, wedi'i thargedu, ar sail cudd-wybodaeth ehangach, at adegau a lleoedd pan ellid disgwyl dod o hyd i unigolyn.

Mewn cymhariaeth, mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn arwain at gyhoeddi delwedd o unigolion mewn ffordd fwy cyffredinol. Unwaith y bydd ar-lein, bydd y ddelwedd yn gyhoeddus ac ni fydd Heddlu De Cymru yn gallu rheoli'r ddelwedd honno mwyach. Felly, gallai aros ar-lein hyd yn oed pan fydd yr unigolion wedi'i ganfod ac, felly, mae'n ymyrryd mwy â phreifatrwydd yr unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdano.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi sy'n ystyried defnyddio technoleg adnabod wynebau byw gydbwyso unrhyw ymyrraeth â phreifatrwydd â'r angen am y gweithgarwch ymchwilio. Os bydd y Swyddog Awdurdodi yn defnyddio'r dechnoleg mewn ffordd sy'n lleihau unrhyw effaith y gallai ei chael ar breifatrwydd unigolyn cymaint â phosibl, gall gynnig dewis amgen mwy priodol a llai ymwithiol yn lle defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Swyddogion Awdurdodi: Wrth benderfynu defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, dylai Swyddogion Awdurdodi gofnodi pa ddulliau eraill, fel y bo'n briodol, nas rhoddyd ar waith neu a ddefnyddiwyd ond yr aseswyd eu bod yn annigonol neu'n amhriodol i gyflawni nod Heddlu De Cymru.

Rheolaethau cymesuredd. Mae'r system adnabod wynebau byw a'r ffordd y caiff ei gweithredu hefyd yn cynnwys rheolaethau er mwyn helpu i leihau unrhyw effaith ar y cyhoedd ac unigolion a roddir ar Restr Wyllo fel a ganlyn:

- I. Ni ellir defnyddio technoleg adnabod wynebau byw i ddod o hyd i unigolion oni bai eu bod wedi'u cynnwys ar Restr Wyllo.
- II. Caiff Rhestr Wyllo newydd ei llunio bob tro y defnyddir y dechnoleg yn seiliedig ar yr achos cudd-wybodaeth ar gyfer yr ymgyrch honno; diben hyn yw bodloni'r prawf cyfredoldeb, perthnasedd, rheidrwydd a chymesuredd ar gyfer cynnwys unrhyw ddelwedd ar Restr Wyllo er mwyn nodi cyfatebiadau posibl.
- III. Caiff delweddau ar Restr Wyllo eu dal yn gyfreithlon gan Heddlu De Cymru gyda phob cam rhesymol yn cael ei gymryd er mwyn sicrhau bod y ddelwedd yn ddelwedd o unigolyn y bwriedir iddo gael ei gynnwys ar Restr Wyllo benodol.
- IV. Mae angen i Swyddogion Awdurdodi ystyried a chymeradwyo yn benodol y defnydd o ddelweddau nad ydynt yn dod o'r heddlu ar unrhyw Restr Wyllo. Y rheswm dros hyn yw y gall ystyriaethau penodol o ran preifatrwydd fod ynghlwm wrth ddelwedd os yw'n dod o'r tu allan i gyd-destun plismona. Er enghraifft, mae'n bosibl na chafodd y ddelwedd ei chyhoeddi, ei bod wedi cael ei thynnu mewn man lle y disgwylir mwy o breifatrwydd neu ei bod yn ddelwedd a gyflenwyd i drydydd parti neu a dynnwyd gan drydydd parti at ddiben penodol lle nad yw data yn cael eu rhannu fel arfer â'r heddlu. Hyd yn oed pan all Heddlu De Cymru ddal y delweddau'n gyfreithlon, mae'r angen i'r Rhestr Wyllo fod yn ymateb plismona cymesur yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Swyddog Awdurdodi gynnal asesiad gofalus o ddisgwyliadau unigolyn o ran preifatrwydd yn erbyn yr angen plismona i ddod o hyd iddo gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw. Mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn amlinellu ystyriaethau ar gyfer Swyddogion Awdurdodi yn Adran 6.
- V. Wrth ychwanegu delwedd at y Rhestr Wyllo bydd y system adnabod wynebau byw yn asesu ansawdd ac addasrwydd y ddelwedd ar gyfer nodi cyfatebiadau posibl er

mwyn i bersonél Heddlu De Cymru allu ystyried a rheoli'r risg y bydd delweddau gwael yn cynhyrchu Rhybuddion anghywir.

- VI. Caiff pob Rhestr Wyllo ei dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg.
- VII. Mae ansawdd y camerâu a ddefnyddir yn y system adnabod wynebâu byw yn ddigonol i ddiwallu anghenion y system honno.
- VIII. Mae'r system yn 'gaeedig' ac nid yw wedi'i chysylltu â systemau eraill Heddlu De Cymru na'r rhyngwyd.
- IX. Bwriedir i'r system helpu personél Heddlu De Cymru i ddod o hyd i bobl. Bydd y system bob amser yn dwyn cyfatebiadau posibl i sylw o leiaf un swyddog er mwyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch unrhyw gamau pellach yn hytrach na gwneud penderfyniad yn annibynnol ynghylch unrhyw gamau pellach ar ôl nodi cyfatebiad posibl.
- X. Caiff y defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebâu byw a'r deunyddiau sy'n cefnogi'r defnydd o wneir ohoni eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y system adnabod wynebâu byw a'r ffordd y caiff ei gweithredu yn parhau i fod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn effeithiol o ran bodloni'r achos dros ei defnyddio.

Mae rheolaethau hefyd wedi'u rhoi ar waith o ran cadw data personol er mwyn lleihau'r effaith ar y cyhoedd a'r rhai ar y Rhestr Wyllo. Mae'r rheolaethau yn darparu:

1. os na fydd y system Technoleg Adnabod Wynebâu Byw yn cynhyrchu Rhybudd, y caiff data biometrig unigolyn eu dileu'n awtomatig ar unwaith; ac
2. y caiff y data a ddelir ar y cof bach USB wedi'i amgryptio a ddefnyddir i fewnforio Rhestr Wyllo eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg.
3. y caiff rhestrau gwyllo eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg.
4. os bydd y system adnabod wynebâu byw yn cynhyrchu Rhybudd, y caiff yr holl ddata personol eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg..

Caiff yr holl ddeunydd teledu cylch cyfyng o'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebâu byw ei ddileu o fewn 31 diwrnod, ac eithrio pan y'i cedwir:

1. yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996; a/neu
2. yn unol â pholisïau cwynion/ymchwilio i ymddygiad Heddlu De Cymru

Ystyriaethau o ran preifatrwydd ar gyfer lleoliadau lle y defnyddir technoleg adnabod wynebâu byw. Caiff llawer o leoliadau lle yr ystyrir defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw eu nodi fel rhai angenrheidiol gan yr achos cudd-wybodaeth sy'n cefnogi'r posibilrwydd o ddod o hyd i bobl ar y safle. Fodd bynnag, rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd ystyried disgwyliadau rhesymol aelodau o'r cyhoedd o ran preifatrwydd pan fyddant yn croesi man cyhoeddus lle mae'r heddlu yn ystyried defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw. Mae'r disgwyliadau o ran preifatrwydd yn uwch yn achos rhai mannau a'r bobl y disgwylir iddynt fod mewn rhai mannau a hynny oherwydd eu natur, nag ydynt ar gyfer mannau a phobl eraill. Mae angen i Swyddogion Awdurdodi hefyd ystyried pa fesurau sy'n briodol i nodi bod technoleg adnabod wynebâu yn cael ei defnyddio pan fydd yn cael ei defnyddio, yn enwedig

Ile mae'r disgwyliadau o ran preifatrwydd yn uwch. Mae hyn yn bwysig i gadarnhau a yw'r defnydd arfaethedig o'r dechnoleg a'r lleoliad lle y caiff ei defnyddio yn gymesur.

Dylai Swyddogion Awdurdodi hefyd ystyried a yw lleoliad arfaethedig ar gyfer defnyddio'r dechnoleg yn codi unrhyw bryderon penodol ynghylch preifatrwydd drwy gyfeirio at yr unigolion hynny y disgwylir iddynt fod mewn lleoliad penodol.

Enghraifft: Fel arfer, byddai'r disgwyliadau o ran preifatrwydd yn uwch yn achos ardaloedd sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cyfleusterau neu atyniadau i blant nag y byddent yn achos ardal sy'n denu aelodau o'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Fel arfer, ni fyddai'r cyhoedd yn disgwyl i system adnabod wynebau byw gael ei lleoli y tu allan i siop deganau nac ysgol lle y gallai nifer anghymesur o blant fynd heibio i'r system, pe gellid lleoli'r system rywle arall. Serch hynny, gallai fod achosion lle y byddai'r achos cudd-wybodaeth a'r angen i ddiogelu plant yn golygu ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn yr ardaloedd hyn. Er enghraifft, os yw'n hysbys bod troseddwyr rhyw y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt yn targedu pobl sy'n ymweld â'r lleoliad ac nad oes modd dod o hyd iddynt drwy leoli technoleg adnabod wynebau byw rywle arall na thrwy ddefnyddio tactegau plismona llai ymwithiol. Os bydd angen defnyddio'r dechnoleg yn y lleoliad, dylid defnyddio mesurau lliniaru i leihau'r effaith ar breifatrwydd lle y bo'n bosibl. Gallai hyn gynnwys mesurau ychwanegol er mwyn sicrhau bod yr arwyddion a'r wybodaeth am y defnydd o'r dechnoleg yn ddealladwy i blant sy'n mynd drwy'r Parth Adnabod. Os bydd yn bosibl gwneud hynny ac na fydd yn cynyddu'r risg i blant, dylai'r adeg y defnyddir y dechnoleg a chyfluniad y Parth Adnabod hefyd geisio lleihau nifer y plant sy'n cael eu hasesu gan y system adnabod wynebau byw.

Fel arfer dylid osgoi ardaloedd yr asesir bod ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran preifatrwydd nad ydynt yn rhoi fawr ddim opsiwn i'r cyhoedd osgoi'r ardal heb gryn dipyn o anghyfleustra, oni bai bod y canlynol yn golygu bod y Swyddog Awdurdodi yn fodlon bod y defnydd o'r dechnoleg o dan yr amgylchiadau yn parhau i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur:

1. mae pwysigrwydd defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn y lleoliad hwnnw i gyflawni nod dilys yn cefnogi'r defnydd o'r dechnoleg;
2. nid oes dull amgen ymarferol, llai ymwithiol ar gael i'w ddefnyddio o dan yr amgylchiadau;
3. unrhyw fesurau lliniaru pellach i leihau'r effaith ar y cyhoedd.

Enghraifft: Petai achos rheidrwydd a chymesuredd, yn seiliedig ar gudd-wybodaeth, dros ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw mewn ardal faestrefol i ddod o hyd i grŵp o droseddwyr sy'n lladrata o dai, rydym yn deall y gallai'r disgwyliadau o ran preifatrwydd fod yn uwch yn yr ardal hon. Er mwyn lliniaru hyn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y byddwn yn darparu deunydd cyfathrebu ychwanegol am y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw, er enghraifft drwy ddosbarthu taflenni i drigolion lleol neu gyhoeddi gwybodaeth ar grwpiau cyfryngau cymdeithasol mewn cymdogaethau lleol.

Swyddogion Awdurdodi: Wrth benderfynu defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, dylai Swyddogion Awdurdodi gofnodi'r mesurau a gymerir er mwyn sicrhau bod y defnydd o'r dechnoleg yn tarfu cyn lleied â phosibl ar yr unigolyn (unigolion) y mae'r heddlu yn chwilio amdano (amdanynt) ac eraill. Dylai hyn gynnwys cyfeirio'n benodol at unrhyw

ystyriaethau penodol o ran preifatrwydd a allai fod yn berthnasol i'r lleoliad lle y defnyddir y dechnoleg ac unrhyw fesurau lliniaru sydd ar waith er mwyn lleihau effaith y defnydd o'r dechnoleg. Wedyn dylai Swyddogion Awdurdodi barhau i adolygu'r Defnydd a wneir o'r dechnoleg er mwyn sicrhau bod yr achos yn parhau i fod yn briodol.

4.12 Ystyriaethau ehangach o ran y Ddeddf Hawliau Dynol

Mae'r hawl i breifatrwydd yn werth sy'n diogelu annibyniaeth ac urddas dynol unigolion drwy eu galluogi i fyw eu bywydau fel y dewisant. Felly, bydd amgylchiadau pan allai rhyddid meddwl, cydwybyod a chrefydd (Erthygl 9), rhyddid mynegiant (Erthygl 10) a rhyddid i ymgynnull a rhyddid i ymgysylltu (Erthygl 11) yn arbennig o berthnasol.

- a) *Erthygl 9.* Gall y dillad y mae pobl yn eu gwisgo fod yn weithred o feddwl, cydwybod a chrefydd ac, fel arfer, nid oes gan yr heddlu y pŵer cyfreithiol i fynnu bod unigolion yn tynnu dillad (gan gynnwys unrhyw benwisg) am y rheswm syml eu bod yn mynd heibio i'r system adnabod wynebau byw. At hynny, mae'n bosibl bod y lleoliad lle y gallai pobl fynd heibio i'r system adnabod wynebau byw hefyd yn dwyn Erthygl 9 i rym.

Enghraifft: Gall defnyddio technoleg adnabod wynebau byw helpu Heddlu De Cymru i ddiogelu'r cyhoedd, gan gynnwys mewn man addoli lle mae'r achos cudd-wybodaeth wedi nodi bod bygythiad i'r cyhoedd. Gall penderfyniad i ddefnyddio'r dechnoleg y tu allan i fan addoli neu mewn ffordd sy'n rhwystro mynediad i fan addoli yn sylweddol ddwyn Erthygl 9 i rym. Yn y cyd-destun hwn, mae angen cydbwysu'r ystyriaethau o ran diogelwch y cyhoedd â'r angen i ddefnyddio'r dechnoleg yn y lleoliad hwnnw. Pe gellid cyflawni'r amcanion plismona i ddiogelu'r cyhoedd drwy ddefnyddio'r system adnabod wynebau byw rywle arall, ni fyddai angen defnyddio'r dechnoleg yn y lleoliad arfaethedig. Os bydd y bygythiad yn golygu bod angen lleoli'r system adnabod wynebau byw ger man addoli, bydd angen i Swyddogion Awdurdodi hefyd benderfynu a yw'r tresmasiad ar hawliau Erthygl 9 yn anghymesur â manteision tebygol defnyddio technoleg adnabod wynebau byw. Fel arfer, byddai ystyriaethau yn cynnwys yr effaith ar y rhai sydd am fynd i mewn i fan addoli, yr effaith debygol ar yr un bobl heb y dechnoleg

- b) Mae *Erthyglau 10 ac 11* yn arbennig o berthnasol wrth ystyried plismona ymgynulladau a gwrthdystiadau ac unrhyw ddefnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw a allai effeithio ar ymgynulliad neu wrthdystiad. Mae Erthygl 10 yn arbennig o berthnasol os bydd gan bobl amheuan ynghylch mynegi eu hunain o ganlyniad i ddefnyddio'r dechnoleg. Mae Erthygl 11 hefyd yn berthnasol os bydd defnyddio'r dechnoleg yn atal pobl rhag mynd i ymgynulliad neu wrthdystiad neu fel arall yn achosi i bobl gyfranogi llai.

Enghraifft: Gall defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw helpu Heddlu De Cymru i blismona ymgynulliad neu wrthdystiad, yn enwedig os bydd achos cudd-wybodaeth sy'n dangos bod risg i ddiogelwch y cyhoedd. Yn benodol, gall y dechnoleg gynorthwyo swyddogion yr heddlu drwy chwilio'n effeithlon am unigolion sy'n cyflawni trais mewn lleoliadau gorlawn lle y gallai fod yn anodd dod o hyd iddynt fel arall. Wrth benderfynu a yw defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw yn angenrheidiol ac yn gymesur, dylid ystyried hawliau unigolyn o dan Erthyglau 10 ac 11, gan nodi y gallai fod disgwyliadau o ran bod yn anhysbys mewn torf ac y gallai unigolion newid eu ffordd o wrthdystio o ganlyniad i ddefnyddio'r dechnoleg.

Rhaid pwysu a mesur Erthyglau 10 ac 11 yn erbyn yr angen i ddefnyddio'r dechnoleg er mwyn galluogi ymgynulliad y gallai'r risg i ddiogelwch y cyhoedd fel arall darfu arno. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylid ystyried ffactorau a allai leihau effaith defnyddio'r dechnoleg. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngu ar y defnydd o'r dechnoleg o ran amser a chwmpas i'r isafswm sydd ei angen er mwyn diogelu'r cyhoedd. Gallent hefyd gynnwys

c) *Dyletswyddau Gweithredol*

Amlinellwyd y 'ddyletswydd weithredol' am y tro cyntaf yn achos *Osman v y Deyrnas Unedig*⁸ ac roedd yn ymwneud â methiant honedig i ddiogelu'r dioddefwr ifanc a'i deulu rhag y risg i fywyd a oedd yn cael ei beri gan stelciwr. Yn achos *Osman* dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod gan yr heddlu ddyletswydd gadarnhaol i gymryd camau rhesymol i atal risg wirioneddol ac uniongyrchol i fywyd unigolyn neu unigolion a nodwyd yr oedd yr heddlu yn ymwybodol ohono (ohonynt) neu y dylai'r heddlu fod wedi bod yn ymwybodol ohono (ohonynt). Mae cyfraith achosion hefyd yn cadarnhau bod gan yr heddlu ddyletswydd debyg i ddyletswydd Osman i ymchwilio i honiadau difrifol yn amserol ac yn effeithlon er mwyn cynnal hawliau unigolyn o dan Erthygl 3.

Mae dyletswydd weithredol Osman yn arbennig o berthnasol i dechnoleg adnabod wynebâu byw mewn dau gyd-destun (i) lle mae'n cael ei defnyddio i ddod o hyd i unigolion sy'n peri bygythiad i'r cyhoedd neu iddyn nhw eu hunain pan nodir risg wirioneddol ac uniongyrchol i fywyd ac yr ystyrir bod defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw yn ymateb priodol i risg o'r fath a (ii) ar ôl i Rybudd gael ei gynhyrchu pan allai'r angen i ddod o hyd i'r unigolyn hwnnw ddwyn dyletswydd weithredol Osman i rym gyda mesurau yn cael eu rhoi ar waith os bydd unigolyn sy'n cynhyrchu Rhybudd yn ceisio osgoi swyddogion.

d) *Erthygl 14.* Mae'r hawl hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl hawliau a rhyddidau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 gael eu diogelu a'u cymhwyso heb wahaniaethu. Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai pob unigolyn, ni waeth pwy ydyw, fwynhau'r un hawliau dynol ac y dylai fod ganddo fynediad cyfartal iddynt. Nid yw Erthygl 14 yn hawl annibynnol – mae angen dangos bod gwahaniaethu wedi effeithio ar y mwynhad o un neu fwy o'r hawliau dynol eraill, nid bod yr hawliau eraill wedi'u torri mewn gwirionedd. Byddai defnyddio technoleg adnabod wynebâu byw yn berthnasol mewn amgylchiadau lle y byddai perfformiad demograffig yr algorithm adnabod wynebâu byw yn amrywio i'r fath raddau fel y byddai pobl o grŵp demograffig penodol yn fwy neu'n llai tebygol o weld Rhybudd Anwir yn cael ei gynhyrchu yn eu herbyn. O ganlyniad mae dau bwynt i'w hystyried mewn perthynas â'r system adnabod wynebâu byw, sef (i) a yw perfformiad gwahaniaethol demograffig y system yn

⁸ [1999] 1 F.L.R. 193 (ECtHR)

amrywio yn ôl grŵp demograffig penodol i'r fath raddau fel y byddai unigolyn yn dioddef effaith wahaniaethol a (ii) os oes gwahaniaeth yn y driniaeth, a ellir cynnig cyfiawnhad gwrthrychol a rhesymol dros hyn.

5 Deddf Cydraddoldeb 2010

- 5.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu fframwaith cyfreithiol er mwyn diogelu hawliau unigolion a hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu yn seiliedig ar driniaeth wahanol ar sail nodwedd warchoddedig. Mae'r gwaharddiad ar wahaniaethu yn gymwys i wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'n rhaid i Heddlu De Cymru gydymffurfio ag adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a elwir fel arfer yn Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- 5.2 Mae'n ofynnol i Heddlu De Cymru gymryd camau er mwyn sicrhau bod y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen rhoi sylw arbennig i ddau beth: (a) perfformiad technegol y system adnabod wynebau byw (ac wedyn, a yw'r perfformiad yn amrywio yn ôl unrhyw grŵp demograffig penodol) a (b) y Defnydd gweithredol a wneir o'r system:

a) Perfformiad technegol y system adnabod wynebau byw.

Mae'r penderfyniad yn achos 'Court of Appeal Bridges' yn nodi'n glir bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru gymryd camau rhesymol i fodloni ei hun, naill ai yn uniongyrchol neu drwy broses ddilysu annibynnol, nad oes gan yr algorithm yn yr achos hwn duedd annerbyniol ar sail hil na rhyw. Er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall sut mae Heddlu De Cymru yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae Heddlu De Cymru wedi cyhoeddi ei Aseiad o Effaith Technoleg Adnabod Wynebau Byw ar Gydraddoldeb. At hynny, mae Heddlu De Cymru wedi cyhoeddi papur o'r enw 'South Wales Police LFR System's Accuracy and Demographic Accuracy Variance'. Mae'r papur hwn yn esbonio'r camau y mae Heddlu De Cymru wedi'u cymryd er mwyn deall cywirdeb ystadegol a pherfformiad demograffig ei algorithm adnabod wynebau byw. Mae hyn yn cynnwys:

1. **Gwerthusiad annibynnol:** Mae nifer o astudiaethau yn tynnu sylw at berfformiad amrywiol algorithmau adnabod wynebau a'r potensial i berfformiad algorithmau amrywio yn dibynnu ar ffactorau demograffig. O ganlyniad, mae Heddlu De Cymru wedi ystyried y gwerthusiadau a gynhaliwyd gan y Sefydliad Safonau a Thechnoleg Cenedlaethol (NIST) sydd wedi gwerthuso cywirdeb ystadegol a pherfformiad demograffig tua 200 o algorithmau adnabod wynebau, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan NEC, sef y darparwr a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru.
2. **Sicrwydd parhaus:** Mae Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw yn darparu ar gyfer proses barhaus o werthuso ac adolygu ar ôl defnyddio'r dechnoleg. Mae hyn yn adlewyrchu natur barhaus Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae hefyd yn cynnig cyfle i Heddlu De Cymru fonitro i weld a oes unrhyw broblemau technegol drwy adolygu pob rhybudd, gan gynnwys unrhyw rai anghywir a monitro i weld a oes unrhyw dueddiadau. Petai pryder yn cael ei nodi, byddai Heddlu De Cymru wedyn mewn sefyllfa i ymchwilio iddo ymhellach a chynnal profion i weld a oes unrhyw

broblemau o dan oruchwyliaeth Bwrdd Rhaglen Technoleg Adnabod Wynebau Byw a Biometreg Heddlu De Cymru.

3. **Gwerthusiad academaidd annibynnol:** Mae Heddlu De Cymru wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r holl agweddau ar Dechnoleg Adnabod Wynebau a fydd yn cynnwys technoleg adnabod wynebau byw. Cynhelir y gwerthusiad gan y Labordy Ffiseg Cenedlaethol a bydd yn canolbwyntio ar degwch sy'n ymwneud yn benodol ag ethnigrwydd, oedran a rhyw. Bydd yr astudiaeth yn dechrau ym mis Tachwedd 2021 gydag adolygiadau parhaus yn ystod oes yr astudiaeth yn cael eu hystyried o dan oruchwyliaeth Bwrdd Rhaglen Technoleg Adnabod Wynebau Byw a Biometreg Heddlu De Cymru.

b) Y Defnydd gweithredol o'r system adnabod wynebau byw.

Mae Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw hefyd yn ymateb i Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a Ffactorau Amgylcheddol er mwyn sicrhau bod y system adnabod wynebau byw yn addas i'w defnyddio fel y bwriedir a'i bod yn gweithio'n iawn. Mae Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a Ffactorau Amgylcheddol gan gynnwys agweddau megis cyfluniad camerâu, lleoliad camerâu, amodau goleuo, y pellter rhwng y system adnabod wynebau byw a phobl a fydd yn mynd heibio iddi a phwyntiau sy'n ymwneud ag oedran a golwg unigolyn wedi'u hystyried yn ofalus yn Nogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y system adnabod wynebau byw a chydymffurfiaeth Heddlu De Cymru â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Er enghraifft, mae Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw yn darparu bod Gweithredwyr Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn cael eu hyfforddi i nodi problemau gyda Rhestrau Gwylio sy'n ymwneud â delweddau arfaethedig a allai effeithio ar berfformiad y system. Pan ystyrir bod yr angen i ddefnyddio delwedd yn angenrheidiol ac yn gymesur, mae'r rhai sy'n defnyddio'r system adnabod wynebau byw wedi cael hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y system yn perfformio cystal â phosibl ac ystyried yn effeithiol unrhyw broblemau sy'n codi o ganlyniad i ddefnyddio delweddau o'r fath fel rhan o'r broses adnabod.

Yn sgil cymryd camau rhesymol i ddeall cywirdeb ystadegol a pherfformiad demograffig system adnabod wynebau byw Heddlu De Cymru ac yng ngoleuni pwyntiau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a Ffactorau Amgylcheddol, mae Heddlu De Cymru wedi mabwysiadu safbwynt 'methu diogel' er mwyn sicrhau, os nad oes unrhyw sail gyfreithlon arall dros gymryd camau plismona:

nad Ymgysylltir ag aelod o'r cyhoedd oni bai bod o leiaf un swyddog wedi adolygu cyfatebiad posibl a nodwyd gan system adnabod wynebau byw ac wedi llunio ei farn ei hun bod y ddelwedd o'r aelod o'r cyhoedd yn cyfateb i ddelwedd ar y Rhestr Wyllo.

Mae hyn yn golygu nad yw'r system adnabod wynebaw byw yn gwneud unrhyw benderfyniad i Ymgysylltu â'r cyhoedd, y swyddog sy'n gwneud y penderfyniad – yn union fel y mae swyddogion yn gwneud penderfyniadau tebyg i Ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd bob sydd (heb gymorth technoleg adnabod wynebaw byw). Y swyddog sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad hwn, ar sail ei hyfforddiant a'i brofiad plismona.

Yn yr un modd, y swyddog sydd yn y sefyllfa orau i ystyried effaith unrhyw Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun a'r System ac unrhyw Ffactorau Amgylcheddol a allai fod wedi dylanwadu ar y system adnabod wynebaw byw pan gynhyrchodd Rybudd ac a yw ffactorau o'r fath yn cyfuno i olygu nad yw'n briodol Ymgysylltu ag aelod o'r cyhoedd o dan yr amgylchiadau.

Swyddogion Awdurdodi: Er mwyn sicrhau bod y swyddog yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch Ymgysylltu, mae pob swyddog sy'n rhan o ymgyrch lle mae technoleg adnabod wynebaw byw yn cael ei defnyddio wedi'i frifio ynglŷn â'r ffordd y mae'r system adnabod wynebaw byw yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys y Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Ffactorau Amgylcheddol a all effeithio ar berfformiad. Dylai Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw hefyd

Y tu hwnt i'r ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun a'r System a'r Ffactorau Amgylcheddol, mae personél Heddlu De Cymru hefyd yn gyfrarwydd â rheoli gofyniad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal gweithgareddau plismona o nifer o dechnegau eraill ar gyfer mynd i'r afael â throseddau, er enghraifft 'stopio a chwilio'. Yn hyn o beth, mae'n bwysig bod y defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn seiliedig ar yr angen i gyflawni nod dilys, megis atal troseddau ac anhrefn. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a, lle y bo'n berthnasol, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn llywio'r cynllun plismona i gefnogi'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw er mwyn sicrhau bod Heddlu De Cymru yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Wedyn, caiff cydymffurfiaeth â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei monitro a'i hadolygu wedyn tra bydd y dechnoleg yn cael ei Defnyddio.

6 Deddf Diogelu Data 2018

6.1 Mae Heddlu De Cymru yn prosesu data personol ar gyfer rhaglenni adnabod wynebaw byw 'yn seiliedig ar y gyfraith'; yn benodol ei bwerau cyfreithiol a nodwyd mewn perthynas â'r gyfraith gyffredin yn ogystal ag ystyriaethau o ran hawliau dynol a chydaddoldeb fel y'u hamlinellir yn y Mandad Cyfreithiol hwn a'r polisiau a roddwyd ar waith gan Ddogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebaw byw. Mae'r Ddogfen Bolisi Briodol a dogfennau eraill Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebaw byw a gyhoeddwyd gan Heddlu De Cymru fel corff cyhoeddus yn galluogi aelodau o'r cyhoedd sy'n mynd heibio i system adnabod wynebaw byw a'r rhai a allai gael eu rhoi ar Restr Wyllo ddeall y safonau y mae Heddlu De Cymru yn gweithredu yn unol â nhw, gan gynnwys nodi'r broses awdurdodi a'r gofynion ar gyfer defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw, manylion am ble y gellir defnyddio'r dechnoleg a'r ystyriaethau a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol o ran pwyl y gellir ei roi ar Restr Wyllo Rhaglen Adnabod Wynebaw Byw.

6.2 At ddibenion atal troseddau ac anhrefn, mae Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn rheoleiddio'r gwaith o brosesu data personol, gan gynnwys prosesu data sensitif, p'un a gânt eu prosesu ar gyfrifiadur, system teledu cylch cyfyng, delweddau llonydd neu gyfryngau eraill. Mae unrhyw

ddelwedd wedi'i recordio o ddyfais a all ddatgelu enw unigolyn penodol yn 'ddata personol'. Felly, mae'r Ddeddf Diogelu Data yn gymwys i'r gwaith o brosesu data ar gyfer rhaglenni adnabod wynebau byw o ran dod o hyd i unigolion ar Restr Wyllo ond hefyd o ran prosesu gwybodaeth fiometrigrig am aelodau o'r cyhoedd i gadarnhau nad ydynt ar Restr Wyllo. Daw'r gweithredoedd hyn o dan brosesu data at ddibenion gorfodi'r gyfraith, fel y'i diffinnir yn adran 31 o'r Ddeddf Diogelu Data:

"For the purposes of this Part, "the law enforcement purposes" are the purposes of the prevention, investigation, detection or prosecution of criminal offences or the execution of criminal penalties, including the safeguarding against and the prevention of threats to public security."

Swyddogion Awdurdodi: Mae eisoes angen i Swyddogion Awdurdodi fodloni eu hunain bod angen defnyddio technoleg adnabod wynebau byw er mwyn atal troseddau ac anhrefn yng nghyd-destun Deddf Hawliau Dynol 1998. Yn yr un modd, er mwyn cydymffurfio ag Adran 35(5) o'r Ddeddf Diogelu Data, mae angen iddynt fodloni eu hunain bod defnyddio'r system adnabod wynebau byw i brosesu data biometrigrig yn gwbl angenrheidiol at ddiben gorfodi'r gyfraith. Dylid nodi diben gorfodi'r gyfraith yn glir ac esbonio'r ffordd y bodlonwyd y safon

- a) Ystyr gwbl angenrheidiol yn y cyd-destun hwn yw bod yn rhaid i'r gweithgarwch prosesu ymwneud ag angen dybryd ac nad yw'n rhesymol ymarferol diwallu'r angen hwn drwy ddefnyddio dulliau llai ymwthiol. Ni ddefnyddir unrhyw ddata personol a gesglir drwy dechnoleg adnabod wynebau byw mewn ffordd sy'n mynd yn groes i'r diben gorfodi'r gyfraith a nodwyd.

Enghraifft: dulliau plismona amgen i atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd: Gellir defnyddio technoleg adnabod wynebau byw i blismona digwyddiad cyhoeddus proffil uchel sy'n denu cynulleidfa fawr. Wrth ystyried dewisiadau amgen, yn yr enghraifft hon, gellir ystyried mesurau eraill megis rhagor o gamerâu teledu cylch cyfyng. Fodd bynnag, ni fyddant bob amser yn ddewis amgen llai ymwthiol o dan yr amgylchiadau. Er enghraifft:

1. Er y gall system teledu cylch cyfyng helpu i sicrhau diogelwch y digwyddiad, ni all Rybuddio swyddogion am bresenoldeb posibl unigolion sydd o ddiddordeb iddynt.
2. Efallai na fydd yn ymarferol disgwyl i swyddogion adnabod niferoedd mwy o bobl sydd o ddiddordeb i'r Heddlu oherwydd natur a maint y digwyddiad, nifer y swyddogion sydd ar gael i blismona'r digwyddiad a'r gyfradd lifo a nifer y bobl sy'n mynd heibio i'r system teledu cylch cyfyng. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo pwysigrwydd adnabod pobl mewn digwyddiad o'r fath yn golygu bod angen defnyddio dull amgen mwy addas megis technoleg adnabod wynebau byw.
3. Os ystyrir bod technoleg adnabod wynebau byw yn cynnig lefel ychwanegol o ddiogelwch pwysig i'r cyhoedd o gymharu â dulliau plismona eraill. Er enghraifft, gall fod yn wir pan ddefnyddir technoleg adnabod wynebau byw at ddibenion gorfodi'r gyfraith sy'n cynnwys ystyriaethau ehangach o ran diogelwch y cyhoedd. Gall y rhain gynnwys yr angen i ddod o hyd i unigolion y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal. Gall

- b) Gall y safon 'gwbl angenrheidiol' gael ei llywio gan y Swyddog Awdurdodi yn ystyried ffactorau gan gynnwys:

1. pa ddulliau plismona eraill a ddefnyddiwyd neu a ddiystyriwyd wrth geisio dod o hyd i unigolyn (unigolion) ar y Rhestr Wyllo neu ddarparu cyfres o fesurau diogelwch wedi'u teilwra;
2. pwysigrwydd cyflawni diben gorfodi'r gyfraith a'r tebygolrwydd o gyflawni diben gorfodi'r gyfraith drwy ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn y lleoliad arfaethedig gyda'r Rhestr Wyllo arfaethedig (er enghraifft, a yw'r defnydd o'r dechnoleg yn seiliedig ar gudd-wybodaeth neu fel arall yn cael ei ategu gan wybodaeth sy'n cadarnhau y gellir disgwyl i'r dechnoleg gyflawni canlyniadau o dan yr amgylchiadau sy'n cael eu hystyried);
3. maint a graddfa'r defnydd arfaethedig o'r dechnoleg a'r Rhestr Wyllo gysylltiedig a faint o ddata sensitif y disgwylir iddynt gael eu prosesu o ganlyniad i ddefnyddio'r dechnoleg adnabod wynebaw byw;
4. a yw diben gorfodi'r gyfraith sy'n sail i'r defnydd o'r dechnoleg yn gwbl angenrheidiol ac yn gymesur â'r angen i brosesu data sensitif a'r risg i hawliau unigolion sy'n gysylltiedig â hyn (yn amodol ar y mesurau amddiffyn a diogelu a roddir ar waith).

Swyddogion Awdurdodi: Rhaid i Swyddogion Awdurdodi fod yn fodlon bod y gweithgarwch prosesu yn bodloni un o amodau Atodlen 8 a nodir isod a'i fod yn cydymffurfio â chwe egwyddor diogelu data.

6.3 Dygir amodau Atodlen 8 o'r Ddeddf Diogelu Data i rym:

- mae'n angenrheidiol at ddibenion barnwrol a statudol – am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd;
- mae'n angenrheidiol er mwyn gweinyddu cyfiawnder;
- mae'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau allweddol testun y data neu unigolyn arall;
- mae'n angenrheidiol er mwyn diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg;
- mae'n angenrheidiol er mwyn atal twyll.

Enghraifft: Bydd defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn helpu Heddlu De Cymru i fynd i'r afael â throseddau sy'n ymwneud â chylllyll drwy ategu ei bwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin. Gellid defnyddio'r dechnoleg i adnabod troseddwr y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt sydd wedi methu â chydymffurfio â mechnïaeth llyso sy'n ymwneud â throseddau o'r fath. O'i defnyddio fel hyn, byddai'r dechnoleg yn helpu i atal troseddau, ymchwilio iddynt neu eu canfod neu erlyn troseddwr.

Mae'r dechnoleg yn cynnig manteision o gymharu â dulliau plismona posibl eraill megis swyddog heddlu yn defnyddio llun neu ddisgrifiad corfforol i sganio torf a cheisio gweld troseddwr pan fyddai canlyniadau cadarnhaol fel arall yn llai tebygol ac y byddai'r risg o fethu â sylwi ar unigolyn yn uwch. O ystyried pwysigrwydd mynd i'r afael â throseddau difrifol a

threisgar, gellir nodi diben gorfodi'r gyfraith clir. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried bod defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn gwbl angenrheidiol er mwyn helpu i ymchwilio i droseddau sy'n ymwneud â chyllyll, er mwyn galluogi Heddlu De Cymru i ymateb yn effeithiol i angen cymdeithasol dybryd.

Yn yr un modd, gellir ystyried, yn y cyd-destun hwn, fod yr amod yn Atodlen 8, sef bod prosesu'r data yn angenrheidiol at ddibenion barnwrol a statudol sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd, yn cynnwys swyddog heddlu yn gweithio i atal troseddau, ymchwilio iddynt neu eu canfod neu erlyn troseddwyr er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel. Am resymau tebyg, derbyniodd y llys yn achos *Bridges* fod y budd sylweddol i'r cyhoedd sy'n deillio o'r heddlu yn defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw i gyflawni ei ddyletswyddau plismona o dan y gyfraith gyffredin.

6.4 Mae Heddlu De Cymru hefyd wedi cymryd sawl cam yn unol â'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data i reoli a lliniaru effaith unrhyw weithgarwch prosesu data personol a gyflawnir gan ddefnyddio'r system adnabod wynebaw byw. Nodir camau gweithredu penodol yng ngweddill yr adran hon.

6.5 Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data i ategu'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw er mwyn nodi a lleihau risgiau o ran diogelu data. Er y bydd yr Asesiad cyffredinol o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei adolygu bob blwyddyn, dylai Swyddogion Awdurdodi sy'n awdurdodi defnyddio'r dechnoleg sicrhau bod Asesiad digonol o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei gynnal bob tro y defnyddir y dechnoleg. Yn benodol, dylid ystyried:

- a. a yw'r risgiau a'r rheolaethau yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddigonol ar gyfer y defnydd arfaethedig o dechnoleg adnabod wynebaw byw;
- b. a yw'r defnydd arfaethedig o'r dechnoleg yn peri risgiau eraill y gellir eu lliniaru ar ben y rhai a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

6.6 Diogelu Data drwy Waith Dylunio:

Mae'r system adnabod wynebaw byw yn cynnwys nifer o reolaethau diogelu data er mwyn lliniaru effeithiau gweithgarwch prosesu ar breifatrwydd a chydymffurfio â'r rhwymedigaeth gyffredinol yn Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelu Data i roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith ar ôl ystyried egwyddor diogelu data a'i hintegreiddio yng ngweithgareddau prosesu'r system adnabod wynebaw byw. Mae'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y system a nodir ym mharagraff **Error! Reference source not found.** o'r ddogfen hon, yn cynnwys mesurau i wneud y canlynol:

- a. cyfyngu ar faint o ddata personol a gesglir;
- b. cyfyngu ar weithgarwch prosesu data;
- c. cyfyngu ar gyfnod storio data personol.

At hynny, mae Heddlu De Cymru wedi cymryd camau er mwyn sicrhau bod y system adnabod wynebaw byw yn perfformio i lefel lle mae cywirdeb ystadegol y data sy'n cael eu prosesu a

thegwch 'drwy ddylunio' yn rhan annatod o system adnabod wynebau byw Heddlu De Cymru. Mae Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw a gwybodaeth ategol gyhoeddedig arall yn esbonio sut mae Heddlu De Cymru yn cael sicrwydd bod ei system adnabod wynebau byw yn gweithredu â lefel uchel o gywirdeb ystadegol ac mewn ffordd nad yw'n arwain at ganlyniadau annheg rhwng grwpiau demograffig.

Mae ystyriaeth bellach wedi'i rhoi i gyfyngu ar fynediad at unrhyw ddata personol a ddelir ar gyfer y cyfnod o 31 diwrnod. Mae'r system adnabod wynebau byw hefyd yn cynnwys nifer o fesurau diogelwch ffisegol a thechnoleg, gan gynnwys:

- a. Caiff delweddau eu trosglwyddo i'r system adnabod wynebau byw drwy USB gan ddefnyddio peiriant amgryptio caledwedd disg lawn 256-bit AES-CBC a ddiogelir ymhellach gan rif mynediad;
- b. Mae'r system adnabod wynebau byw yn system gwbl gaeedig â dwy haen o ddiogelwch cyfrinair i gael mynediad i'r rhaglen. Mae'r system adnabod wynebau byw wedi'i diogelu'n ffisegol pan fydd yn cael ei defnyddio a chaiff ei glanhau'n ddiogel bob amser ar ôl Defnyddio'r dechnoleg;
- c. caiff rheolaethau mynediad seiliedig ar rôl â chaniatadau defnyddiwr cyfyngedig eu rhoi ar waith ar y system.
- d. Mae'r rhaglen adnabod wynebau byw wedi'i chysylltu â dyfeisiau symudol sy'n defnyddio pwynt mynediad preifat â thair lefel o ddiogelwch (i) cyfeiriadau IP penodol, (ii) mynediad cyfrinair i'r pwynt mynediad a (iii) mynediad cyfrinair i'r ap symudol. Mae gan yr ap symudol API RESTful a bydd wedi'i gwmpasu gan SSL;
- e. Mae'r Dangosfwrdd ac API RESTful wedi'u diogelu gan SSL a TLS yn ddiodyn;
- f. Caiff pob cysylltiad ei gyfeirio drwy HTTPS;
- g. Cynhelir archwiliad llawn o bob gweithred wedi'i chychwyn gan ddefnyddiwr a gyflawnir tra bydd technoleg adnabod wynebau byw yn cael ei defnyddio;
- h. Ymdrinnir â phroblemau technoleg gyda'r system adnabod wynebau byw bob amser gan aelod o'r staff technoleg sy'n cefnogi'r system adnabod wynebau byw pan fydd yn cael ei defnyddio.

6.7 Dogfen Bolisi Briodol:

Mae adran 42 o'r Ddeddf Diogelu Data yn mynnu, pan gynhelir y gweithgarwch prosesu, fod gan y rheolydd ddogfen bolisi briodol ar waith. Mae Heddlu De Cymru wedi llunio'r ddogfen hon ac wedi'i chyhoeddi. Mae'r ddogfen hon yn galluogi'r cyhoedd i ddeall manylion y canlynol:

- a. y data sy'n cael eu prosesu gan y system adnabod wynebau byw, pa mor aml y cânt eu prosesu a data pwy a gaiff eu prosesu;
- b. gweithdrefnau, mesurau diogelwch ac egwyddorion atebolrwydd ar gyfer cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data pan ddibynnir ar amod o Atodlen 8 i brosesu data personol biometrig ar gyfer unigolion sydd ar y Rhestr Wyllo ac unigolion sy'n mynd heibio i'r system adnabod wynebau byw;
- c. polisi Heddlu De Cymru ar gadw a dileu data personol ar gyfer gweithgarwch prosesu adnabod wynebau byw.

6.8 Swyddog Diogelu Data:

Mae Heddlu De Cymru wedi penodi Swyddog Diogelu Data yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelu Data, yr ymgynghorwyd ag ef mewn perthynas â thechnoleg adnabod wynebaw byw. Mae'r Swyddog Diogelu Data ar gael i roi gwybodaeth a chynghor i'r Prif Gwnstabl (fel y rheolydd data) a phersonél Heddlu De Cymru am eu rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data. Mae'r Swyddog Diogelu Data hefyd yn darparu swyddogaeth fewnol er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data.

7 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

7.1 Fel rhan o'r pwerau sydd gan Heddlu De Cymru o dan y gyfraith gyffredin i ddiogelu bywyd ac eiddo, rydym yn prosesu data categori arbennig yn unol â gofynion Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (sydd wedi'i hymgorffori yng nghyfraith y DU o dan Ran 2 o'r Ddeddf Diogelu Data ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno ac a ategir gan Ran 2 o'r Ddeddf Diogelu Data ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno).

7.2 Mae'r amodau ar gyfer prosesu data categori arbennig a nodir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru lunio Dogfen Bolisi Briodol, sy'n nodi ac yn esbonio ein gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (sy'n ymwneud â phrosesu data personol) a pholisïau sy'n ymwneud â chadw a dileu data personol o'r fath.

7.3 Dygir amodau Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data i rym:

- cydsyniad penodol;
- budd sylweddol i'r cyhoedd;
- ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol.

7.4 Mae adran 10 o'r Ddeddf Diogelu Data yn ategu Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, sy'n ei gwneud yn ofynnol i amodau canlynol Atodlen 1 gael eu bodloni (ymchwil hanesyddol rhan 1 o atodlen 1 / budd sylweddol i'r cyhoedd rhan 2 o atodlen 1).

7.5 Dygir Atodlen 1 i'r Ddeddf Diogelu Data (rhan 1) i rym:

- ymchwil;
- dibenion ystadegol ac ati a dibenion ymchwil y llywodraeth;
- diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg

Enghraifft: Bwriedir cynnal gwerthusiad academiaidd o brosesau adnabod wynebaw byw gan ystyried tegwch. Bydd gweithgarwch rhannu data yn destun Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Bydd unrhyw weithgarwch rhannu data wedi'i gyfyngu o ran amser drwy lwyfan rannu ar y we yn hytrach na thrwy broses trosglwyddo data. Caiff partneriaid academiaidd fynediad i'r llwyfan drwy gyfleuster mewngofnodi diogel am gyfnod cyfyngedig o amser. Dibynnir ar ddiben ymchwil wyddonol yma. Lle y bo'n bosibl defnyddir data wedi'u hanonymaiddio neu ddata o dan ffugenwau. Pan fo aelodau o staff yr heddlu yn cydsynio i'w delweddau gael eu defnyddio at ddibenion profi'r system neu werthuso ei pherfformiad, cesglir y cydsyniad hwn yn unol â safonau

moeseg ychwil cydnabyddedig. (Noder: nid yw cydsyniad a gesglir ar gyfer ymchwil yn cyfeirio at ddiffiniad diogelu data o gydsyniad).

7.6 Dygir Atodlen 1 i'r Ddeddf Diogelu Data (rhan 2) i rym:

- dibenion statudol a dibenion y llywodraeth;
- diogelu plant

7.7 Dogfen Bolisi Briodol:

Mae'r amodau ar gyfer prosesu data categori arbennig a nodir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru lunio Dogfen Bolisi Briodol, sy'n nodi ac yn esbonio ein gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae Heddlu De Cymru wedi llunio'r ddogfen hon ac wedi'i chyhoeddi. Mae'r ddogfen hon yn galluogi'r cyhoedd i ddeall manylion y canlynol:

- a. y data sy'n cael eu prosesu gan y system adnabod wynebau byw, pa mor aml y cânt eu prosesu a data pwy a gaiff eu prosesu;
- b. gweithdrefnau, mesurau diogelwch ac egwyddorion atebolrwydd ar gyfer cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data pan ddibynnir ar amod o Erthygl 9 i brosesu data personol biometrig ar gyfer unigolion sydd ar y Rhestr Wyllo ac unigolion sy'n mynd heibio i'r system adnabod wynebau byw;
- c. polisi Heddlu De Cymru ar gadw a dileu data personol ar gyfer gweithgarwch prosesu adnabod wynebau byw.

8 Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

Yn sgil pasio Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 cyflwynwyd cod newydd ar gyfer camerâu gwylidwriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol a phenodwyd y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth. Mae adran 33(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru ystyried y Cod ar gyfer defnyddio technoleg adnabod wynebau byw. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r 12 o egwyddorion arweiniol y dylai gweithredwyr systemau eu mabwysiadu. Mae'r Cod yn gwneud sawl pwynt penodol mewn perthynas â thechnolegau adnabod awtomataidd y mae Heddlu De Cymru yn eu hystyried fel a ganlyn:

Cod	Dull gweithredu Heddlu De Cymru
Gwybodaeth am brosesu teg i destunau data	Mae gwybodaeth am weithgarwch prosesu Heddlu De Cymru ar gael i destunau data. Mae'n darparu gwybodaeth am y system adnabod wynebau byw a gweithgarwch prosesu data ar ei wefan. Rhoddir gwybod i'r cyhoedd bob tro y caiff technoleg adnabod wynebau byw ei defnyddio a darperir gwybodaeth ategol.
Systemau cadw a gwaredu priodol	Ymdrinnir â'r systemau angenrheidiol yn Nogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg wynebau byw.
Technoleg addas a mesurau diogelwch ffisegol	Mae'r mesurau hyn wedi'u rhoi ar waith drwy waith dylunio ac ymdrinnir â nhw hefyd yn Nogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw.

Camerâu o ansawdd digonol i gyflawni'r diben arfaethedig	Ymdriniwyd â'r gofyniad drwy ddyluniad y system adnabod wynebâu byw.
Yn cael ei monitro gan unigolion hyfforddedig	Bydd y system adnabod wynebâu byw bob amser yn tynnu sylw aelod hyfforddedig o bersonél Heddlu De Cymru at gyfatebiadau posibl er mwyn i benderfyniad ynghylch unrhyw gamau pellach gael ei wneud. Fel hyn, mae'r system adnabod wynebâu byw yn gweithio i helpu personél Heddlu De Cymru i adnabod pobl yn hytrach na gweithredu fel proses beiriannol annibynnol heb unrhyw fewnbwn gan ddefnyddwyr.

9 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'n gwneud hyn mewn dwy ffordd:

9.1.1 mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth benodol am eu gweithgareddau;

9.1.2 mae gan y cyhoedd yr hawl i ofyn am wybodaeth gyhoeddus gan awdurdodau cyhoeddus.

Gan gydnabod ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae Heddlu De Cymru yn darparu cryn dipyn o wybodaeth am dechnoleg adnabod wynebâu byw ar ei wefan. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gryno am y defnydd a wneir o'r dechnoleg gan gynnwys maint y Rhestr Wyllo, cyfanswm y Rhybuddion, camau gweithredu cadarnhaol a nifer y cyfatebiadau anghywir, nifer yr arestiadau a nifer y gwarediadau ac amcangyfrifon o gyfanswm y wynebâu a welwyd wrth i bobl fynd heibio i'r system adnabod wynebâu byw. Bydd Heddlu De Cymru hefyd yn ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

10 Trosolwg o'r Fframwaith Cyfreithiol a'r Trefniadau Llywodraethu

